

Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili

Ymgynghoriad Cyllideb 2017/18

Cefndir

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili wedi wynebu ystod o doriadau sylweddol yn y gyllideb yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf ac mae angen cyflwyno amrywiaeth o doriadau i helpu i gyflawni arbedion sylweddol.

Mae cynigion arbedion Drafft ar gyfer 2017/18 yn dilyn egwyddorion allweddol y Cyngor i gyfyngu ar effaith y toriadau ar wasanaethau rheng flaen. Bydd y cynigion arbedion drafft ar gyfer 2017/18 yn dod i gyfanswm o £8.653m, ond ni fydd y mwyafrif llethol o'r rhain yn cael effaith ar drigolion. (Manylir cynigion drafft ar gyfer 2017/18 yn **Atodiad 1**)

Mae'r gyllideb ddrafft yn cynnwys cynnydd arfaethedig o 1% yn Nhreth y Cyngor ar gyfer 2017/18. Byddai hyn yn cyfateb i gynnydd o ddim ond 19c yr wythnos ar gyfer eiddo Band D cyfartalog.

Ceisiwyd safbwyntiau preswylwyr a rhanddeiliaid ar y cynigion drafft. Bydd pob barn yn cael ei bwydo'n ôl a'u hystyried gan Aelodau etholedig cyn bydd y gyllideb derfynol ar gyfer 2017/18 yn cael ei chytuno mewn cyfarfod o'r Cyngor Llawn ar **Dydd Mercher 22^{ain} Chwefror 2017**.

Dull (Beth wnaethom)

Cynhaliwyd ymgynghoriad ar gyllideb y cyngor dros gyfnod o 6 wythnos o 5^{ed} Rhagfyr 2016 tan 14^{eg} Ionawr 2017.

Mae holiadur byr (**Atodiad 2**) wedi ei ddatblygu i geisio barn ar y cynnig cyllideb drafft. Roedd yr holiadur ar gael ar Wefan y cyngor ac fe'i hyrwyddwyd drwy gyfryngau cymdeithasol. Dosbarthwyd yr arolwg hefyd i amrywiaeth eang o randdeiliaid a grwpiau allweddol (fel yr amlinellir yn **Atodiad 3**) drwy e-bost ac mewn fformat printiedig.

Canlyniadau

Yn gyfan gwbl, mae 41 o arolygon wedi'u cwblhau. Er gall y ffigur hwn ymddangos yn isel, yr oedd i'w ddisgwyl o ystyried "effaith isel" y rhestr o arbedion arfaethedig ar drigolion.

Yn gyffredinol, cafwyd ymateb cadarnhaol i'r cynigion a nodwyd a derbyniwyd bod y cyngor yn gwneud y gorau y gall o dan amgylchiadau anodd. Gellir gweld crynodeb llawn o sylwadau yn **Atodiad 4**. Cyflwynwyd sylwadau am yr uwch fater cyflog fel

rhan o adborth yr ymgynghoriad. Mae'r sylwadau hyn wedi eu nodi, ond nid ydynt yn cael eu cynnwys yn yr adroddiad hwn oherwydd ymchwiliadau mewnol parhaus yr awdurdod.

Themau cyffredinol

- Roedd cytundeb cyffredinol bod hunanreoli o lawntiau bowllo yn ateb derbyniol
- Cafwyd safbwyntiau cymysg ar y cynnydd o 1% yn Nhreth y Cyngor
- Codwyd cwestiynau dros arbedion "dim" effaith. Nodwyd nad yw torri yn ôl ar staff y swyddfa yn cael effaith uniongyrchol ar y cyhoedd, ond gall yn y pen draw gael effaith ar y gwasanaethau a ddarperir ar y rheng flaen
- Cafwyd anghytundeb ar gael gwared ar y gwasanaeth gwarchodwyr parc
- Roedd nifer o ymatebion a dderbyniwyd yn gwrthwynebu'r cynydd ar daliadau parcio yn y parciau gwledig gan nifer o drigolion sy'n aelodau o'r grŵp cerdded

Sut y gall y cyngor ac eraill leihau effaith cynigion arbedion ar drigolion

Gwnaed nifer o awgrymiadau i leihau effaith cynigion arbedion er y nodwyd mai prin yw'r cynigion sy'n cael effaith uniongyrchol ar drigolion.

- Dylai'r cyngor ganolbwyntio ar gynyddu incwm ac adolygu gwariant ar eitemau nad ydynt yn hanfodol
- Gan weithio mewn partneriaeth ag eraill lle bo angen, dylai'r cyngor fanteisio ar yr asedau sydd ar gael e.e. gweithio gyda Cadw i gynyddu ymwelwyr i Gastell Caerffili a chanol y dref
- Symleiddio prosesau uwch reolwyr a gwneud penderfyniadau
- Darparu gwasanaeth o ansawdd da gan leihau cwynion

"Mae angen i bawb dderbyn peth cyfrifoldeb am y sefyllfa yr ydym ynddi."

Grwpiau a effeithiwyd

Mynegodd aelodau o grŵp cerdded bryder bod codiadau tâl parcio mewn parciau gwledig yn cael mwy o effaith ar bobl hŷn a phobl ag anableddau.

Proffil yr ymatebwyr

O'r rhai a ddarparodd wybodaeth:

16 yn fenywod a 24 o ddynion.

Roedd 38 yn breswylwyr yn y fwrdeistref sirol, 1 yn berson busnes, 1 aelod etholedig ac 1 o weithwyr CBSC.

Ymatebodd trigolion o ardaloedd tu mewn ac o amgylch y prif drefi yn y fwrdeistref sirol, Bargoed, Coed Duon, Caerffili, Rhisga, ac Ystrad Mynach i'r arolwg.

Atodiad 1:

Cynigion Arbedion Drafft 2017/18

1	Arbedion o flaen llaw a ddygwyd ymlaen o 2016/17	£1.815m
2	Effaith arbedion Blwyddyn-Lawn a gymeradwywyd 2016/17	£0.146m
	Cynigion arbedion 2017/18:	
3	Arbedion 'Dim Effaith'	£3.037m
4	Rhesymoli Lawntydd Bowllo	£0.113m
5	Rheoli'r Trysorlys - Adolygiad o Ddarpariaeth Isafswm Refeniw	£3.500m
6	Cyfraniadau pensiwn ar gyfer cyn-Awdurdodau	£0.042m
	CYFANSWM	£8.563miliwn

Felly, beth mae hyn yn ei olygu mewn gwirionedd?

1 - Arbedion o flaen llaw a ddygwyd ymlaen o 2016/17 - Dyma'r swm o arian ychwanegol yr ydym wedi arbed y llynedd sydd wedi cael ei 'gario drosodd' i eleni.

2 - Effaith Blwyddyn-Lawn arbedion 2016/17 a gymeradwywyd - Roedd gan rai o arbedion y flwyddyn ddiwethaf effaith am ran o'r flwyddyn yn unig a gwelir effaith blwyddyn-lawn yr arbedion hyn yn 2017/18.

3 - Arbedion 'Dim Effaith' 2017/18 – Mae'r rhain yn arbedion 'ystafell gefn' sy'n cynnwys, yn bennaf, rheoli swyddi gwag, ail-alinio cyllideb a mân newidiadau i'r ddarpariaeth gwasanaethau.

4 - Rhesymoli Lawntydd Bowllo - Mae'r cyngor yn newid y ffordd y mae'n gweithredu'r cyfleusterau hyn ar draws yr ardal. Mae'r newidiadau allweddol yn cynnwys:

- Cytunwyd i gau Lawnt Fowlio Abertridwr a rhyddhau un aelod o staff
- Cael gwared ar y gwasanaeth Gwarchodwyr y Parciau
- Gweithredu 20 lawnt fowlio mewn rhaglen cynnal a chadw is a rhyddhau tri aelod o staff
- Clybiau Bowllo i ymgymryd â thasgau cynnal a chadw gwyrdd anarbenigol
- Talu grant i Glybiau Bowllo
- Clybiau i gadw incwm o ffioedd a thaliadau.

5 - Rheoli'r Trysorlys - Adolygiad o bolisi Darpariaeth Isafswm Refeniw – Ni fyddai'r arbediad hwn yn cael effaith ar y cyhoedd a byddai'n cael ei wneud drwy adolygu un o bolisiau ariannol y cyngor a elwir yn Ddarpariaeth Isafswm Refeniw.

6 - Cyfraniad pensiwn ar gyfer cyn-Awdurdodau – Mae hyn yn ymwneud â chyfraniadau pensiwn a wnaed i staff a oedd yn gweithio ar gyfer awdurdodau eraill cyn ad-drefnu llywodraeth leol yn 1996.

Cynnydd arfaethedig yn Nhreth y Cyngor 2017/18

Mae'r gyllideb ddrafft yn cynnwys cynnydd arfaethedig o **1%** yn Nhreth y Cyngor ar gyfer 2017/18. Dyma'r un cynnydd a welsom y llynedd pan gytunodd Caerffili ar y **codiad Treth y Cyngor isaf yng Nghymru**. Isod mae'r cynnydd wythnosol gwirioneddol y bydd pob eiddo yn gweld ar gyfer elfen CBSC eu Treth y Cyngor. Bydd manylion llawn yn cael eu cynnwys yn eich Dogfennaeth Treth y Cyngor blyneddol.

Atodiad 2: Arolwg

Gweler atodiad PDF

Atodiad 3: Rhanddeiliaid

Mae ein cynulleidfaoedd yn cael eu rhannu'n fras i'r categorïau canlynol:

- Holl Breswylwyr CBSC
- Pobl Ifanc
- Pobl Hŷn
- Cymunedau Busnes
- Sector Wirfoddol
- Panel Safbwynt
- Sefydliadau Partner (BGLL ac ati)
- Cynghorau Tref a Chymuned
- STAFF CBSC

Rhanddeiliaid

Bydd copïau o'r holiadur yn cael eu dosbarthu i'r grwpiau rhanddeiliaid canlynol naill ai'n electronig neu ar bapur:

- Fforwm Busnes
- Fforwm 50+ Caerffili
- Y sector wirfoddol, gan gynnwys Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Gwent, prosiectau Lleisiau'r Cymoedd a Rhwydwaith Rhieni
- Safbwynt Aelodau'r Panel
- Sefydliadau Partner (BGLL)
- Holl Gynghorau Cymuned a Thref
- Rhwydwaith ar-lein (OWL)
- Cysylltiadau Rhwydwaith Cydraddoldeb
- Bob pennaeth ar gyfer rhieni
- Clybiau Pontio'r Cenedlaethau
- Cyflogeion CBSC

Atodiad 4: Crynhoad o'r sylwadau

C1: Rhewch eich barn i ni ar y cynigion arbedion a amlinellwyd os gwelwch yn dda. Efallai y byddwch am nodi os ydych yn cytuno'n gryf neu'n anghytuno ag unrhyw un o'r toriadau a restrir, gan roi rhesymau dros eich barn.

- Arbedion dim effaith 2017/18 - pa mân newidiadau i ddarpariaeth gwasanaethau? Hunanreoli Lawnt Fowllo - nid wyf yn cytuno gyda chael gwared ar Wasanaeth Lawnt Fowllo a Cheidwaid y Parciau Abertridwr (maent yn gwneud gwaith da yn enwedig gan fod rhai pobl ifanc yn defnyddio'r parciau ar gyfer cam-drin alcohol a chyffuriau.) Caiff grantiau eu croesawu gan glybiau bowllo a chanolfannau cymunedol eraill.
- Cytuno'n llwyr â'r cynnig ynghylch Lawntiau Bowllo. Mae'n ymddangos yn deg y dylai gwaith cynnal a chadw gael ei wneud yno gan y clybiau gyda nhw'n derbyn yr arian llawn a gynhyrchir yn y clybiau. Dim problem fawr gyda'r cynnydd yn Nhreth y Cyngor, ond byddai'n dda i wybod sut y bydd yr arian ychwanegol yn cael ei wario. Y prif bwynt y byddwn am godi yw sut y gallwch arbed dros £3m heb unrhyw effaith? Y newid a grybwyllwyd yw i'r Ddarpariaeth Isafswm Refeniw. Beth yw ystyr hynny? Sut y gall arbedion mor enfawr cael eu gwneud heb unrhyw effaith. Mae hyn yn codi'r cwestiwn pam y byddem yn gwario'r swm hwnnw o arian ar rywbeth sydd heb unrhyw effaith gadarnhaol yn y lle cyntaf?
- Treth y Cyngor yn cynyddu! Rydym yn talu mwy a mwy, ac yn cael gwasanaeth llawer gwaeth.
- DYDW I DDIM YN CYTUNO Â CHAEL GWARED AR WARCHODWYR Y PARCIAU O GWBL. FEL TRIGOLYN RWYF YN MWYNHAU'R CYFLEUSTERAU PARCIAU SYDD GAN ARDAL CAERFFILI I'W CYNNIG. MAE ANGEN MWY O WARCHODWYR Y PARCIAU ARNOM I GYNNAL A CHADW'R PARCIAU I SICRHAU NAD YW IOBIAID YN HONGIAN O GWMPAS. MAE ANGEN CADW'R PARCIAU YN LÂN A THACLUS ACHOS BOB AMSER MAE SBWRIEL I'W GODI.
- Rwy'n cytuno â'r rhan fwyaf. Nid wyf yn cytuno â chael gwared ar warchodwyr y parciau os yw'n goruchwyllo diogelwch y bywyd gwyllt.
- Rwy'n cytuno â'r cynigion, fodd bynnag, achos mae angen i'r cyngor fynd i'r afael â gwastraff ariannol fel sgaffaldiau yn cael eu gosod yn rhy gynnar, hyd at chwe wythnos cyn i unrhyw waith ddechrau. Rhaid bod hyn yn gallu cael ei wneud yn fwy effeithlon.
- Rwy'n cytuno â'r arbedion arfaethedig ar gyfer 2017/18.
- Rwy'n cytuno â'r cynigion hyn gan eu bod yn ymddangos i gael yr effaith leiaf.
- Rwy'n cytuno â'r hyn yr ydych wedi'i roi ar waith, a hefyd ar gyfer y cynnydd yn Nhreth y Cyngor.
- Rwy'n cytuno â'r cynigion ar y dudalen flaenorol. Ar ôl cael fy nghyflogi gan Gyngor Caerdydd yn y gorffennol, rwyf yn ymwybodol o'r problemau a llwyth gwaith mae'n rhaid i chi ddelio â nhw.
- Rwyf yn gwbl gefnogol i'r cynigion ydych wedi amlinellu gyferbyn. Mae'n gyfnod anodd iawn i ALLau i gydbwyso'u llyfrau pan fod rhaid i chi ddelio â'r briwsion a roddir i chi oddi wrth eich meistri "Torïaid" yn San Steffan. Pob lwc!
- Nid wyf yn cytuno y dylid cael cynnydd. Efallai bydd teuluoedd yn cytuno gan y gallent fforddio hynny. Gallaf ond fforddio fy miliau nawr. Sut mae hyn yn mynd i helpu rhiant sengl gyda phlentyn mewn coleg. Mae'n rhaid i mi ei chefnogi. Mae gen i swydd 30 awr yr wythnos ar gyflog isafswm. Nid oes gennyf unrhyw help

gyda fy morgais, felly gweithiwrch hynny allan. Nid oes gennyf ddigon i fyw arno fel y mae. Sut mae hyn yn mynd i fod yn fudd i mi?

- Rwy'n sicr y bydd aelodau'r lawnt fowlio yn cynnal y lawntiau.
- Rwyf yn gwrthwynebu'n gryf y taliadau o £1 a wnaed ac efallai bod gennych fy llythyr. Mae'r cynnig o gynyddu hyn yn dreth arnaf i yn cadw'n heini, yn enwedig yr henoed.
- Hoffwn gofrestru fy nymuniad i gael Aelodau'r Cyngor i benderfynu drosod. Mae ganddynt holl oblygiadau'r penderfyniad.
- Credaf fod cynnydd o 1% yn Nhreth y Cyngor yn glodwiw iawn, ond rwyf hefyd yn meddwl y gallai 1% ychwanegol wedi cael ei roi ar y Dreth er mwyn torri'r taliadau parcio ac i helpu cynnal parciau'r cyngor.
- Byddwn yn cytuno mewn egwyddor bod y toriadau sydd eu hangen yn y gyllideb yn cael eu gwneud fel yr amlinellwyd yn y Cynnig Arbedion Drafft 2017/18, er y dylai blaenoriaethau gael eu penderfynu gan gymryd safbwyntiau trigolion i ystyriaeth ac yn dilyn y broses ymgynghori a amlinellwyd. Byddaf hefyd yn ychwanegu, er bod bwriad rhai o'r toriadau yn y gyllideb yw peidio â chael effaith ar drigolion, mae toriadau o'r fath yn creu gostyngiad mewn rhai gwasanaethau allai effeithio ar drigolion yn anuniongyrchol.
- Mae'n anodd iawn i ddeall hyn, heblaw cynnig barn, gyda'r wybodaeth gyfyngedig a gyhoeddwyd bob blwyddyn ar y mater hwn gan CBSC. Mae'n cael ei gymhlethu ymhellach hyd yn oed, gan y modd y mae'r awdurdod yn cyhoeddi ei gyfrifon a'i adroddiadau i bwyllgorau ariannol. Nid yw dogfennau byth yn cyfleu darlun digon clir a llawn? O ystyried y lefelau llymder ariannol mae pawb yn cwyno amdanynt, ni allaf weld sut, o fewn unrhyw flwyddyn ddiwethaf, bod unrhyw gyllideb a ddyrannwyd wedi llwyddo i gael tanwariant ar ddiwedd y flwyddyn os ydynt i fod i gael eu dyrannu ar sail angen - beth sydd ddim yn cael eu gwneud? Cynilion o £3M heb effaith? - ble a pham y mae'r gwariant hwn wedi cael ei ganiatáu yn y gorffennol
- Tybir bod dros £3m o'r arbedion hyn ddim yn cael unrhyw effaith ar y cyhoedd. Mae hyn yn cynrychioli cyfran sylweddol o gyfanswm yr arbedion. Sut mae'r cyhoedd i benderfynu a ydynt heb effaith? Dylai manylion y toriadau gwirioneddol fod ar gael i'r cyhoedd.
- Dylai Taliadau Parcio ym mharciau gwledig cael eu dileu. Roedd y swm a gasglwyd yn y meysydd parcio hyn lawer yn llai na'r swm a amcangyfrifwyd a fyddai'n cael ei godi wrth osod mesuryddion yn y parciau hyn. Dengys hyn effaith negyddol ar y taliadau parcio hyn. Roedd y taliadau hyn mewn gwrthwynebiad uniongyrchol i nod ac amcan y Cyngor i "hyrwyddo ffordd o fyw iach". Mae'n ymddangos nad yw'r llaw chwith yn gwybod beth mae'r llaw dde yn ei wneud. Bydd pobl nawr yn dechrau parcio ar y strydoedd o amgylch yr ardal a fydd yn amlwg yn tarfu ar breswylwyr.
- Dylai Taliadau Parcio ym mharciau gwledig cael eu dileu. Roedd y swm a gasglwyd yn y meysydd parcio hyn lawer yn llai na'r swm a amcangyfrifwyd a fyddai'n cael ei godi wrth osod mesuryddion yn y parciau hyn. Dengys hyn effaith negyddol ar y taliadau parcio hyn. Roedd y taliadau hyn mewn gwrthwynebiad uniongyrchol i nod ac amcan y Cyngor i "hyrwyddo ffordd o fyw iach".
- Dylai Taliadau Parcio ym mharciau gwledig cael eu dileu. Roedd y swm a gasglwyd yn y meysydd parcio hyn lawer yn llai na'r swm a amcangyfrifwyd a fyddai'n cael ei godi wrth osod mesuryddion yn y parciau hyn. Dengys hyn

effaith negyddol ar y taliadau parcio hyn. Roedd y taliadau hyn mewn gwrthwynebiad uniongyrchol i nod ac amcan y Cyngor i "hyrwyddo ffordd o fyw iach".

- Dylai Taliadau Parcio ym mharciau gwledig cael eu dileu. Roedd y swm a gasglwyd yn y meysydd parcio hyn lawer yn llai na'r swm a amcangyfrifwyd a fyddai'n cael ei godi wrth osod mesuryddion yn y parciau hyn. Dengys hyn effaith negyddol ar y taliadau parcio hyn. Roedd y taliadau hyn mewn gwrthwynebiad uniongyrchol i nod ac amcan y Cyngor i "hyrwyddo ffordd o fyw iach".
- Dylai Taliadau Parcio ym mharciau gwledig cael eu dileu. Roedd y swm a gasglwyd yn y meysydd parcio hyn lawer yn llai na'r swm a amcangyfrifwyd a fyddai'n cael ei godi wrth osod mesuryddion yn y parciau hyn. Dengys hyn effaith negyddol ar y taliadau parcio hyn. Roedd y taliadau hyn mewn gwrthwynebiad uniongyrchol i nod ac amcan y Cyngor i "hyrwyddo ffordd o fyw iach".
- Dylai Taliadau Parcio ym mharciau gwledig cael eu dileu. Roedd y swm a gasglwyd yn y meysydd parcio hyn lawer yn llai na'r swm a amcangyfrifwyd a fyddai'n cael ei godi wrth osod mesuryddion yn y parciau hyn. Dengys hyn effaith negyddol ar y taliadau parcio hyn. Roedd y taliadau hyn mewn gwrthwynebiad uniongyrchol i nod ac amcan y Cyngor i "hyrwyddo ffordd o fyw iach".
- Dylai Taliadau Parcio ym mharciau gwledig cael eu dileu. Roedd y swm a gasglwyd yn y meysydd parcio hyn lawer yn llai na'r swm a amcangyfrifwyd a fyddai'n cael ei godi wrth osod mesurydd yn y parciau hyn. Dengys hyn effaith negyddol ar y taliadau parcio hyn. Roedd y taliadau hyn mewn gwrthwynebiad uniongyrchol i noda ac amcan y Cyngor i "hyrwyddo ffordd o fyw iach".
- Nid yw arbedion yn cael eu cario drosodd o flwyddyn i flwyddyn. Os nad ydych yn ei wario eleni, ni fyddwch yn ei gael y flwyddyn nesaf. Lawntiau bowllo? Os ydych am chwarae bowls, iawn gen i, ond talwch eich hunain am y lawntiau.
- Cytuno'n gryf â phopeth uchod.
- Mae'r cynigion yn edrych yn rhesymol iawn yn yr hinsawdd economaidd bresennol. Mae pob awgrym yn iawn.
- Dylai'r arbedion a wneir drwy gynllunio cyllideb yn ofalus fod yn barhaus ac nid yn unig oherwydd gall y Llywodraeth dorri'n ôl ar grant cymorth, neu fod ychydig yn fwy cadarnhaol ar gyfer 2017/18 h.y. mae Rhif 3 - Rhif 5 at ei gilydd â chyfanswm o dros 6 miliwn yn fwy o ran hynny.
- Nid oes digon o fanylion ar y fersiwn cryno sydd ar gael ar y wefan. Mae'n ymddangos nad oes unrhyw ddadansoddiad o effaith, dim ond datgan beth sy'n cael ei wneud. Rwyf yn poeni am y toriadau i wasanaeth "gwarchodwyr y parciau" - beth yw ystyr hyn? Rydym yn talu am y defnydd o barcio ceir mewn parciau gwledig, ac eto mae'n ymddangos nad oes unrhyw fuddsoddiad yn y gwasanaeth. Ni allaf roi sylwadau yn fanwl gan nad yw'r cynigion yn cael eu hamlinellu'n ddigon manwl ar y wefan.
- Mae rheoli swyddi gwag YN effeithio ar y Cyhoedd. Os nad yw swyddi gwag yn cael eu llenwi mae'n golygu bod rhywun arall yn cael cynnydd llwyth gwaith, neu nid yw'r gwasanaeth yn mynd yn ei flaen. Mae'n afrealistig i ddibynnu ar y wefan neu systemau ffôn i gymryd lle pobl, achos os nad oes digon o staff i ateb negeseuon e-bost neu ateb galwadau ffôn, yna ni all y gwasanaeth fynd yn ei flaen. Hefyd, nid yw pawb yn gyfarwydd â defnyddio cyfrifiadur felly nid yw dull

"un ffordd i bawb" mewn perthynas â chwblhau ffurflenni yn gweithio gan ein bod ni gyd yn unigolion ac nid yw bywydau pobl yn safonol. Hefyd, hyd yn oed os yw ffurflenni yn cael eu cwblhau ar-lein, mae o hyd angen darparu tystiolaeth drwy ymweld â swyddfa felly mae angen staff rheng flaen

- A fyddai lleihau gwasanaeth Gwarchodwyr y Parciau yn well opsiwn na chael gwared ohono? Nid wyf yn credu mai allanoli gwasanaethau yw'r ffordd ymlaen, eu gwneud yn fwy effeithlon yw'r ateb

C2 Amlinellwch unrhyw awgrymiadau sydd gennych ar sut y gall y cyngor ac eraill leihau effaith y cynigion arbedion hyn ar drigolion.

- Mae'r boblogaeth wedi tyfu'n aruthrol yn y fwrdeistref ac yn enwedig yng Nghaerffili a'r ardal gyfagos. Rydym yn talu ein Treth y Cyngor ac rwyf yn credu bod angen y cyfleusterau a gynigir - fel canolfannau chwaraeon, canolfannau cymunedol ac ati nid yn unig i breswylwyr presennol ond genedlaethau'r dyfodol.
- Esboniwch y newid i'r Ddarpariaeth Isafswm Refeniw. Arbedion enfawr - dim effaith - sut mae hyn yn bosibl? Pa feysydd gwariant eraill o bwys sy'n 'cael dim effaith' positif a gellir eu cymryd i fwrdd mor hawdd â hyn?
- incwm y gellid ei ddefnyddio ar gyfer ysgolion newydd, gwasanaeth cynllunio da ac ati, rydych yn cadw i fwrw'n galed bobl sy'n yn gweithio'n galed ond ennill cyflog isel - ie, y rhai nad ydynt yn gymwys i gael budd-daliadau
- NID YW'R DDARPARIAETH ISAFSWM REFENIW YN CAEL EFFAITH AR DRIGOLION, FELY MAE HWN YN GWESTIWN GWIRION
- Treth y Cyngor yma yw'r isaf yng Nghymru ar gyfer yr ychydig flynyddoedd diwethaf. Nid oeddwn yn gwybod bod y clwb bowlïo yn costio cymaint o arian i gynnal a chadw.
- Fel uchod h.y. y senario sgaffaldiau, grymuso trigolion i gymryd perchnogaeth o'r llwybrau cerdded a mannau gwyrdd drwy eu cadw'n lân ac yn daclus
- Dylai'r holl bartïon sy'n gysylltiedig gael digon o rybudd am unrhyw newidiadau.
- Adolygu gwariant ar bethau nad ydynt yn hanfodol megis creu palmentydd uwch mewn arosfannau bysiau. Gadewch i ni gael yr holl arwyddion ffyrdd yn Saesneg yn unig achos mae'r rhai dwyieithog yn berygl i ddefnyddwyr y ffordd edrych i hyrwyddo nawdd gan y gwerhwyr sy'n ymweld â busnesau
- Rwy'n credu os yw'r cynnydd yn cael eu cyflwyno, £2, bydd llai o bobl yn defnyddio'r cyfleuster parcio a bydd y ffyrdd cyfagos yn cael eu llenwi gyda cheir.
- Byddwch yn gwneud eich gorau.
- Adolygu a lleihau faint o 'wardiau' a 'chynghorwyr' sy'n cynrychioli'r cyhoedd. Lleihau cyflogau 3/4 haen rheoli uchaf. Symleiddio a chreu system gwneud penderfyniadau effeithiol ac ystyrlon sydd yn wirioneddol dryloyw ac yn gyflym wrth wneud newidiadau/gwelliannau/effeithiau. Ailgyflwyno staff o ansawdd 'amser-gwasanaethwyd' ac 'amser-medrus' o bob oedran (gan adeiladu ar y staff presennol ac yn ailgyflwyno mwy o swyddi llwybr gyrfaol). Gwir ymgysylltu â dinasyddion (gan dderbyn y materion sydd yn wirioneddol yn ein cymunedau) nid rhai sy'n cael eu pennu gan ganfyddiadau swyddogion yn y tŵr ifori
- Gallai'r golled o ran refeniw o'r taliadau hyn gael eu codi gan gynydd bach iawn i'r cynnydd arfaethedig o 1% yn Nhreth y Cyngor.
- Gallai'r golled o ran refeniw o'r taliadau hyn gael eu codi gan gynydd bach iawn i'r cynnydd arfaethedig o 1% yn Nhreth y Cyngor.
- Gallai'r golled o ran refeniw o'r taliadau hyn gael eu codi gan gynydd bach iawn i'r cynnydd arfaethedig o 1% yn Nhreth y Cyngor.
- Gallai'r golled o ran refeniw o'r taliadau hyn gael eu codi gan gynydd bach iawn i'r cynnydd arfaethedig o 1% yn Nhreth y Cyngor.
- Gallai'r golled o ran refeniw o'r taliadau hyn gael eu codi gan gynydd bach iawn i'r cynnydd arfaethedig o 1% yn Nhreth y Cyngor.

- Gallai'r golled o ran refeniw o'r taliadau hyn gael eu codi gan gynnydd bach iawn i'r cynnydd arfaethedig o 1% yn Nhreth y Cyngor.
- Bu "toriadau" drwy'r amser pan oeddwn yn blentyn - 60 mlynedd - Dim erioed wedi bod yn well. Ble mae'r toriadau hyn?
- Cael pobl gymwys yn lle'r ynfydion sy'n rhedeg pethau nawr.
- Ceisiwch dorri lawr ar sbwriel a waredwyd ar hyd priffyrdd, byddai camerâu yn helpu dal y bobl sy'n gwneud hyn.
- Mae hwn yn "ddatganiad gwirion". Mae ANGEN i breswylwyr sylweddoli bod hyn yn ddull gymuned gyfan a all wneud pethau i weithio a bod PAWB yn rhan o hyn. Mae angen i bawb dderbyn peth cyfrifoldeb am y sefyllfa yr ydym ynddi.
- Un ffordd o helpu diogelu gwasanaethau rheng flaen yw bod rhaid iddynt gael eu cynnal mewn modd proffesiynol a chadarnhaol felly nid oes unrhyw gwynion yn cael eu gwneud am eich gwasanaeth.
- Hoffwn wybod y rhesymeg y tu ôl i gael gwared ar wasanaeth gwarchodwyr y parciau, a hefyd ei effaith bosibl
- Drwy wrando mwy ar ei gwsmeriaid a staff a theilwra gwasanaethau'n briodol. Os yw CBSC am i fwy o bobl ddefnyddio gwasanaethau ar-lein, yna dylai'r system fod yn gallu ymdopi â'r galw ac nid yn torri lawr drwy'r amser. Hefyd, os ydynt eisiau mwy o bobl i ddefnyddio'r system ffôn, yna dylid ei staffio'n ddigonol fel nad ydynt yn aros yn ormodol a dylai fod digon o staff yn y swyddfeydd wrth gefn i ateb eu hymholiad.
- gall lleihau gwastraff a lleihau daliad stoc gynnig dewis arall effeithiol mewn llawer o achosion.
- Mae angen i chi adeiladu economi'r ardal, a fydd yn cynyddu incwm cynghorau ac arbed ar wariant. Rwy'n awgrymu eich bod yn annog twristiaeth. Er mwyn gwneud hyn mae'n rhaid i chi adeiladu ar yr hyn sydd eisoes yma. E.e. Mae gan Gaerffili'r castell. Gall y cyngor wneud yr ardal o'i amgylch yn fwy deniadol i ymwelwyr. Un peth syml y gellid ei wneud yw gwneud llwybr yr holl ffordd o amgylch y castell, felly gall cerddwyr a beicwyr gael profiad gwell. Agorwch i fyny'r mannau parcio mawr o amgylch yr ardal gyfan a sicrhau bod digon ar gyfer plant a phobl ifanc i'w fwynhau. Ychwanegwch fwy o fannau parcio ble bynnag y bo modd. Yna mae'n rhaid i'r cyngor gweithio gyda Cadw i adeiladu ar y profiad
- Dewch o hyd i'r arian er mwyn cloi'r giatiau ym Mharc Morgan Jones. Mae hwn yn bris bach i'w dalu am ddiogelwch yn y nos.

C3 Os ydych yn teimlo bydd toriadau cyllideb mewn ardal benodol yn effeithio arnoch chi fel unigolyn (yn gadarnhaol neu'n negyddol) oherwydd unrhyw un o'r canlynol (eich tarddiad ethnig, rhyw, oed, statws priodasol, cyfeiriadedd rhywiol, anabledd, ailbennu rhywedd, cred neu ddiffyg cred, defnydd o'r iaith Gymraeg, iaith Arwyddion Prydain neu ieithoedd eraill, cenedligrwydd neu gyfrifoldeb dros ddibynnyddion) rhowch fanylion isod.

- Nid oes unrhyw un yn hoffi cynnydd mewn Treth y Cyngor yn enwedig pan fyddwch yn HENEIDDIO. Ar y cyfan yr wyf yn meddwl eich bod wedi gwneud gwaith da dros y blynyddoedd rwyf wedi byw yng Nghaerffili (ers 1982). Fodd bynnag, bydd yna bob amser meysydd i'w gwella e.e. tyllau yn y ffordd - tipio sbwriel ac ati. Pob lwc yn 2017-18!!
- Ie, pobl sydd ar incwm isel ac yn briod! Rwy'n ennill £17,500 y flwyddyn, ac mae fy ngŵr o gwmpas yr un fath, nid yn union yn gyflogau gweddus ac nid oes gennym hawl i unrhyw gymorth, ac mae'n dod yn frwydr go iawn, rwyf nawr yn dechrau dioddef o iselder. Mae gennym blentyn tair oed, eto nid oes credydau treth i ni. Mae'r penderfyniadau hyn yn cael eu gwneud gan bobl sy'n ennill cyflog teg, ac nid ydynt yn teimlo'r effaith. Rwy'n teimlo bod effaith! Mae dweud fy mod yn ddig ddim yn agos - beth am ddim cynnydd yn nhreth y cyngor
- Ni fydd toriadau yn cael unrhyw effaith cymdeithasol neu economaidd arnaf.
- Rwyf yn perthyn i grwp cerdded - sy'n cael ei redeg gan y cyngor - ar y safle ym Mhengar. Gall fod 60 o bobl yn bresennol. Yr wyf yn gwybod eu bod wedi dweud y byddant yn parcio ar y ffyrdd cyfagos a bydd eu diogelwch mewn risg - mae pob cerddwr dros 60 oed.
- Bydd toriadau yn effeithio ar bob un ohonom mewn rhyw ffordd ac mae ein problem gyda'r Llywodraeth ac nid y Fwrdeistref.
- Gan fod y rhan fwyaf o'r bobl yn yr ardal hon yn siarad Saesneg nid Cymraeg rwy'n gwrthwynebu pob dogfen a ffurflen yn y ddwy iaith. Rwyf yn deall rhaid i hyn gael ei wneud yn ôl y gyfraith ond a fyddai'n syniad gwell i hysbysu'r cyhoedd, os oeddent am eu gwybodaeth i fod yn Gymraeg eu bod yn gwneud cais am hyn ar y cychwyn. Mae hyn hefyd yn berthnasol pan fyddwch yn ffonio'r cyngor. Os bydd datganiad ar y dechrau eu bod angen eu gwybodaeth, drwy wasgu botwm 1 am y Gymraeg, a 2 am y Saesneg, byddai hyn wedyn yn atal unrhyw daliadau dros ben ar eu bil ffôn.
- Pam fod y cwestiwn hwn yn canolbwyntio ar 'nodweddion gwarchodedig' yn unig, pan fod toriadau parhaus i'r gyllideb yn effeithio'n amlwg ar lawer o agweddau ar fywydau pobl, megis: Addysg: Lefelau Cyrhaeddiad / Plant sy'n cwblhau 'hyfforddiant beicio oddi ar y ffordd' / Nofio / Prydau bwyd ysgol a phrydau ysgol am ddim / plant yn gadael yr ysgol heb unrhyw gymwysterau ffurfiol / Presenoldeb (Cynradd ac Uwchradd) / Presenoldeb mewn llyfrgelloedd a lleihau oriau agor / NEET / technolegau adnewyddadwy / lleoedd gwag neu annigonol / darpariaeth a chefnogaeth Anghenion Arbennig. Trafnidiaeth: Cysylltiadau Ffyrdd / Bws / Rheilffordd (mynediad - argaeledd - cysylltedd - cysylltiadau traws cwm - bodlonrwydd - gwybodaeth) - Y Fargen Ddinesig
- Y parciau gwledig yw'r lleoliadau mwyaf diogel ar gyfer grwpiau cerdded. Mae llawer o'r grwpiau hyn yn oedrannus ac anabl. Mae'r tâl yn y parciau hyn yn dreth ar bobl sy'n aml yn llai abl i fforddio'r ffi.
- Y parciau gwledig yw'r lleoliadau mwyaf diogel ar gyfer grwpiau cerdded. Mae llawer o'r grwpiau hyn yn oedrannus ac anabl. Mae'r tâl yn y parciau hyn yn dreth ar bobl sy'n aml yn llai abl i fforddio'r ffi.

- Y parciau gwledig yw'r lleoliadau mwyaf diogel ar gyfer grwpiau cerdded. Mae llawer o'r grwpiau hyn yn oedrannus ac anabl. Mae'r tâl yn y parciau hyn yn dreth ar bobl sy'n aml yn llai abl i fforddio'r ffi.
- Y parciau gwledig yw'r lleoliadau mwyaf diogel ar gyfer grwpiau cerdded. Mae llawer o'r grwpiau hyn yn oedrannus ac anabl. Mae'r tâl yn y parciau hyn yn dreth ar bobl sy'n aml yn llai abl i fforddio'r ffi.
- Y parciau gwledig yw'r lleoliadau mwyaf diogel ar gyfer grwpiau cerdded. Mae llawer o'r grwpiau hyn yn oedrannus ac anabl. Mae'r tâl yn y parciau hyn yn dreth ar bobl sy'n aml yn llai abl i fforddio'r ffi.
- Y parciau gwledig yw'r lleoliadau mwyaf diogel ar gyfer grwpiau cerdded. Mae llawer o'r grwpiau hyn yn oedrannus ac anabl. Mae'r tâl yn y parciau hyn yn dreth ar bobl sy'n aml yn llai abl i fforddio'r ffi.
- Y parciau gwledig yw'r lleoliadau mwyaf diogel ar gyfer grwpiau cerdded. Mae llawer o'r grwpiau hyn yn oedrannus ac anabl. Mae'r tâl yn y parciau hyn yn dreth ar bobl sy'n aml yn llai abl i fforddio'r ffi.
- Nid wyf yn perthyn i'r un o'r uchod oherwydd fi wyf fi, neb arall.
- Amherthnasol
- Nid yw'r toriadau cyllideb yn debygol o gael unrhyw effaith uniongyrchol ar ein cartref sydd yn 2 oedolyn 65+.
- Mae angen manylion ychwanegol o ran effaith yr adliniad arfaethedig o gyfraniadau pensiwn i gyflogeion awdurdodau blaenorol cyn Aildrefnu er mwyn deall yn well os bydd y cynnig hwn yn cael effaith arnaf oherwydd fy oedran. Ble allaf weld manylion y cynnig hwn?